Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 40 – 12 CHWEFROR 2010

Mae'r arddangosfa ***BYW AR Y TIR*** yn parhau yma tan ddiwedd y mis – digon o amser i chi alw mewn i'w gweld.

Dydd Gwener nesaf (19 Chwefror), mae Theatr Powys yn cyflwyno drama newydd sbon ***SCARECROW*** ar gyfer y teulu cyfan. Mae'n ddrama sy'n llawn cynnwrf a hiwmor am bobl ifanc mewn cymuned wledig yng Nghymru sy'n ceisio dygymod â'u profiadau o gyfeillgarwch a theulu, caredigrwydd a chreulondeb. Tocynnau ar gael nawr o'r Morlan (£6/£4); y noson yn dechrau am 7.00.

Ar y Llun ar ôl hynny, mae **PYTHEFNOS MASNACH DEG** yn cychwyn (22 Chwefror-7 Mawrth). Gan fod Morlan yn ganolfan Fasnach Deg, rydym wedi trefnu **ARDDANGOSFA GOGINIO** Masnach Deg ar nos Iau, 4 Mawrth am 7.30 dan ofal cwmni arlwyo A-maeth. Tâl mynediad: £3 (yn cynnwys paned Masnach Deg). Thema'r bythefnos eleni yw'r Cyfnewid Mawr ac fe'n gwahoddir i gyfnewid ein nwyddau arferol am rhai Masnach Deg. Mae hyn yn cynnwys yr holl amrediad o gynnyrch Masnach Deg sydd ar gael – dillad, gemwaith, ac ati – yn ogystal â'r bwyd yr ydym efallai yn fwy cyfarwydd â nhw. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru eich cyfnewid ar-lein, cliciwch yma – a chofiwch ddod i'r noson goginio hefyd! Bydd stondin o wybodaeth a chynnyrch gan Grŵp Masnach Deg Aberystwyth yno hefyd.

Dyma'r digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma dros y bythefnos nesaf.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 18 Chwefror
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

SGWRS GAN RICHARD HARTNUP AM *"CRWYDRO CEFN GWLAD CEREDIGION"*
2.30, dydd Iau, 18 Chwefror
Cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 24 Chwefror
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

Hoffem hefyd dynnu eich sylw at **AGOR DRYSAU** – gŵyl theatr rhyngwladol Cymru a drefnir bob yn ail flwyddyn gan Arad Goch. Mae'r ŵyl yn digwydd eleni o 16 i 20 Mawrth – cliciwch yma am fanylion pellach. Mae dwy o'r sioeau yn cael eu perfformio yn Morlan: ***Cwmwl Tystion*** am 7.30, nos Iau, 18 Mawrth a ***Twm Sion Cati***, 7.30, nos Wener, 19 Mawrth. Cewch fwy o wybodaeth am y rhain yn yr e-fwletin nesaf.

RHAGHYSBYS – DATHLU'R PUMP!
Nos Wener, 23 Ebrill-Prynhawn Sul, 25 Ebrill
Soniwyd eisoes am ben-blwydd y Morlan yn 5 oed. Cewch fanylion pellach – a'r manylion diweddaraf – am yr ŵyl *Dathlu'r Pump!* ar wefan Morlan, a bydd tocynnau ar gyfer yr amryw ddigwyddiadau ar werth yn fuan.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr